OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2814 (Cy.271)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *14 Tachwedd 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *15 Tachwedd 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 484, 489 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**).

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 15 Tachwedd 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

### Diwygio Rheoliadau

**2.** Yn Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002(**3**), yn lle'r Atodlen rhodder—

**"YR ATODLEN** Rheoliadau 2, 3 a 7

**Y DIBEN Y MAE GRANT YN DALADWY AR EI GYFER NEU MEWN CYSYLLTIAD AG EF**

**1.** Gwneud dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol o'r enw Grantiau Dysgu'r Cynulliad o dan Reoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002(**4**) i bersonau—

(**1**) 1996 p.56; diwygir adrannau 484 a 489 gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraffau 125 a 126 o Atodlen 30 iddi. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 579(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2002/1857 (Cy.181).
(**4**) O.S. 2002/1856 (Cy.180).

(a) nad yw eu hadnoddau ariannol, fel y'u hasesir hwy yn unol â darpariaethau Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad, yn uwch na lefel yr adnoddau ariannol a bennir yn yr amodau cymhwyster ar gyfer y Cynllun hwnnw; a

(b) sy'n bodloni amodau cymhwyster eraill (os oes rhai) ar gyfer y Cynllun hwnnw,

at y diben y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

**2.** Y diben hwnnw yw i alluogi personau i fynd ar gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch a ddynodwyd at ddibenion y Cynllun hwnnw drwy ddarparu cymorth ariannol i neu tuag at gwrdd â chost llyfrau, cyfarpar, teithio, neu ofal plant yr eir iddo fel canlyniad o fynychu cwrs o'r fath."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**) 14 Tachwedd 2002

*John Marek*
Dirprwy Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**5**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002 drwy amnewid Atodlen newydd. Mae'r Atodlen newydd yn ei gwneud yn eglur mai bwriad Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yw galluogi y rheiny sydd ag adnoddau ariannol cyfyngedig i fynd ar gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch drwy ddarparu cymorth ariannol tuag at gost llyfrau, cyfarpar, teithio neu ofal plant yr eir iddo mewn cysylltiad â mynychu cwrs o'r fath.